**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0870/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

18 Ionawr 2019

Annwyl Mick

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â gweithredadwyedd a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r ddarpariaeth yn yr OS yn ymdrin â diwygiadau sy'n ymwneud â gweithredadwyedd mewn perthynas â Deddf Amaethyddiaeth1970 ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn ac ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig am ddadl ar yr OS hwn. Os bydd dadl o'r fath yn cael ei chynnal, byddwn yn barod iawn i gymryd rhan ynddi.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales